Dyddiad cyhoeddi: 10 Hydref 2016

Cofnod datgelu – Gwybodaeth ET1

Yn dilyn fy neges e-bost dyddiedig 3 Hydref 2016, rwyf bellach mewn sefyllfa i ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 1 Hydref 2016, sef:

A fyddech cystal â rhoi gwybod i mi, ers mis Ebrill 2010:

1) Faint o ffurflenni hawlio ET1 (neu ddyfyniadau a gwybodaeth sy'n ymwneud â'r hawliadau) ar gyfer niwed a ddioddefwyd yn sgil chwythu'r chwiban o dan y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd y mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi'u cael gan y Tribiwnlys Cyflogaeth?

2) A fyddech cystal â rhoi gwybod i mi a oes gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ddata ar y camau a gymerwyd ganddo ef neu ei adran mewn ymateb i'r hysbysiadau hyn gan y Tribiwnlys Cyflogaeth.

3) A fyddech cystal â rhoi dadansoddiad o nifer y ffurflenni hawlio ET1 (neu ddyfyniadau a gwybodaeth sy'n ymwneud â'r hawliadau) a gafwyd yn ôl pob blwyddyn ariannol.

4) A fyddech cystal â darparu rhestr o'r cyrff y mae'r hawliadau o dan y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd yn ymwneud â hwy, a nifer ac (os yw'n ymarferol) natur y ffurflenni hawlio ET1 a gafwyd am bob sefydliad, wedi'u dadansoddi yn ôl blwyddyn ariannol.

5) A yw Archwilydd Cyffredinol Cymru neu ei adran wedi cynnal unrhyw ddadansoddiad o'r wybodaeth am ET1 a gafwyd gan Dribiwnlysoedd Cyflogaeth ers mis Ebrill 2010? Os ydyw, a fyddech cystal â nodi'r holl adroddiadau neu ohebiaeth sy'n rhoi manylion a chanlyniadau'r dadansoddiad(au).

Mae fy ymateb i bob un o'ch cwestiynau fel a ganlyn:

1. Rydym wedi cael tair ffurflen ET1.
2. Gweler yr ateb i gwestiwn 4.
3. Dim un yn 2010-11, 2011-12, 2012-13 a 2013-14. Un yn 2014-15. Dwy yn 2015-16.
4. Roedd yr achos a gafwyd yn 2014-15 yn ymwneud ag elusen a dim ond mewn ffordd anuniongyrchol roedd yn berthnasol i'n cylch gwaith. Gwnaethom gyfeirio'r pryderon

at gorff arall ac ysgrifennu at Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i'w hysbysu o hyn a hefyd awgrymu unigolyn rhagnodedig mwy perthnasol (y Comisiwn Elusennau) i ystyried y mater. Cyfeiriwyd yr achos cyntaf a gafwyd yn 2015-16 atom ar y sail mai ni sy'n goruchwylio'r corff dan sylw. Nid oedd hyn yn wir ac, felly, ni chymerwyd unrhyw gamau pellach. Roedd yr ail achos a gafwyd yn 2015-16 y tu allan i'n cylch gwaith am ei fod yn fater cyflogaeth a oedd yn ymwneud ag unigolyn (cwyn) – gwnaethom ysgrifennu at Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i'w hysbysu o hyn. Mae gennym wybodaeth ynghylch pa gyrff y mae'r hawliadau hyn o dan y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd yn ymwneud â hwy, yn ogystal â gwybodaeth bellach am natur y ffurflenni hawlio ET1 a gafwyd, ond nid wyf am ei rhyddhau am y rheswm canlynol:

- rydym yn ymdrin â materion chwythu'r chwiban yn gyfrinachol i'r graddau a ganiateir gan y gyfraith. Oherwydd y nifer fach o ffurflenni hawlio ET1 a gawsom, rwyf o'r farn bod risg y gallai fod yn bosibl adnabod unigolyn gyda chymorth gwybodaeth a all fod ar gael o ffynonellau eraill. Felly, mae risg o ddatgelu anfwriadol ac y caiff gwybodaeth bersonol ei phrosesu yn annheg. Felly, mae'r wybodaeth yn dod o dan yr eithriad o ran gwybodaeth bersonol a ddarperir gan adran 40(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, sy'n eithriad absoliwt. Mae'r eithriad yn gymwys gan y byddai datgelu'r wybodaeth hon yn mynd yn groes i egwyddorion diogelu data Deddf Diogelu Data 1998.

5. Naddo – ni ddelir gwybodaeth.

Os bydd gennych unrhyw gŵyn am y ffordd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, anfonwch e-bost ataf neu ysgrifennwch ataf.

Mae'n rhaid i mi hefyd eich cyfeirio at adran 50 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. O dan yr adran honno, cewch ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth benderfynu a ymdriniwyd â'ch cais yn unol â'r Ddeddf. Mae manylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth fel a ganlyn:

The Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF

e-bost: casework@ico.gsi.gov.uk

Ffôn: 01625 545745
Ffacs: 01625 524510

Fodd bynnag, dylech nodi y byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl i chi ddilyn pob cam o dan ein gweithdrefnau cwyno mewnol ni cyn gwneud cais o'r fath. Ceir rhagor o ganllawiau ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir